

Fframwaith Gweithredu ar gyfer Cymru, 2017-2020

Fframwaith Gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw

Mai 2017



Iechyd, Lles a Chwaraeon a Gwasanaethau
Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Gofal a Chymorth Integredig ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw

Rhagair

Gall colled clyw fod yn bresennol o enedigaeth, neu ymddangos yn sydyn neu'n raddol dros amser. Rydym eisiau adeiladu ar y cynnydd da sydd wedi cael ei wneud i wella'r gwasanaethau awdioleg iechyd a gofal cymdeithasol a ddarparwyd i bob grŵp oedran dros y deng mlynedd diwethaf.

Mae gwella gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw yn arbennig o heriol pan fo galw cynyddol yn anochel oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio. Dyna pam mae'r Fframwaith Gweithredu hwn yn bwysig. Mae'n rhwymo Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector i gydweithio i wella gwasanaethau i bobl ymhellach a sicrhau y darperir gofal a chymorth o ansawdd da. Dylai pawb allu cael y gwasanaethau mae eu hangen arnynt a gwybod ble y gallant gael gwasanaethau, gofal a chymorth yn eu hardal leol, gyda sicrwydd y byddant yn gallu cael y gwasanaethau a'r cymorth hynny yn gyflym pan fo eu hangen arnynt.

Mae pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw gyda cholled clyw heb ei reoli a dementia neu broblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod angen gofal a chymorth er mwyn cyflawni eu potensial llawn o ran cyflogaeth ac addysg a'u potensial cymdeithasol. Nod y Fframwaith hwn yw dilyn cwrs bywyd o sgrinio babanod newydd-anedig a phlant, trwodd i oedolion a phobl hŷn, er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau priodol eu datblygu a'u hamlygu i'r rheiny mae eu hangen arnynt i fyw'n annibynnol.

Mae'n galonogol bod gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau, cynghorau iechyd cymuned, y trydydd sector a sefydliadau eraill wedi cydweithio i gynhyrchu'r Fframwaith Gweithredu hwn sydd wedi'i ddylunio i weithio ar draws system integredig o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.



Vaughan Gething AC,
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd,
Llesiant a Chwaraeon**



Rebecca Evans, AC
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a
Gwasanaethau Cymdeithasol**

Tudalen cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Y Cyd-destun	1
3. Rhan 1: Y Weledigaeth	3
4. Rhan 2: Y Fframwaith	4
5. Rhan 3: Y Trefniadau Arwain a Monitro	4

Atodiadau

Set Gychwynnol o Gamau Gweithredu	Atodiad 1
Cyfeiriadau	Atodiad 2
Perthnasoedd y Fframwaith	Atodiad 3

BYDDARDOD A CHOLLI CLYW CYMRU: Fframwaith gofal a chymorth integredig ar gyfer pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw

1. Cyflwyniad

1.1 Gall byddardod neu golli clyw ar unrhyw oedran gael effaith negyddol ar lefelau cyfathrebu ac o ganlyniad gall olygu bod pobl yn teimlo ar wahân i'r byd o'u cwrpas. O ganlyniad uniongyrchol i golled clyw a diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth, gellir gweld effaith niweidiol ar ddatblygiad iaith ymysg plant ac ar gyfleoedd i oedolion o ran annibyniaeth a chyflogaeth, a gall hyn arwain at unigedd ac iselder. Mae myrraeth a diagnosis cynnar yn hollbwysig i iechyd a lles unigolion.

1.2 Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar alluogi pobl i wireddu eu dyheadau trwy ddymchwel rhwystrau, hybu cymdeithas deg a chyfartal a chreu gwasanaethau sy'n fwy cynhwysol a hygyrch. Mae angen inni sicrhau bod pobl yn gwybod ble y gallant gael gwasanaethau, gofal a chymorth yn eu hardal leol pan fo eu hangen arnynt. I sicrhau hyn bydd angen partneriaeth newydd rhwng dinasyddion a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gan weithio mewn ffyrdd cydgynhyrchiol i ddarparu'r gofal a chymorth mwyaf priodol yn y ffordd fwyaf diogel ac effeithiol.

1.3 Bydd nifer a mynychder pobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw yn cynyddu'n fawr yn y degawd nesaf. Mae'n bwysig symud gwasanaethau o'r ysbyty i'r lleoliad gofal sylfaenol a chymunedol a'r lleoliad gofal cymdeithasol yn unol â'n cynllun ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol i Gymru hyd at 2018, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chynllun Gweithredu Clustiau, trwyn a gwddf Cenedlaethol Cymru (2016).

1.4 Mae'r Fframwaith yn nodi'r hyn rydym eisiau ei gyflawni mewn system iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n F/fyddar/sy'n byw â cholled clyw. Mae hefyd yn cynnig mwy o eglurder ynghylch yr aliniad ar draws GIG Cymru ac awdurdodau lleol, ac ar yr un pryd yn cydnabod y materion gwahanol o ran trefniadau llywodraethu a chyllid sy'n ymwneud â'r sefydliadau hyn yn uniongyrchol.

2. Y Fframwaith

2.1 Mae'r Fframwaith mewn tair rhan. Mae Rhan 1 yn cyflwyno'r weledigaeth gyffredinol a'r canlyniadau rydym eisiau eu cyflawni i bobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw. Mae Rhan 2 yn nodi'r camau gweithredu penodol a fydd yn ein helpu i wella a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig cynaliadwy a theg yn genedlaethol. Mae Rhan 3 yn pennu'r trefniadau arwain a monitro.

3. Y Cyd-destun

3.1 Mae'r fframwaith hwn yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y Cynllun Gofal Sylfaenol a'r Cynllun Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf. Mae Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, yn elfen allweddol drwyddo draw. Ei weledigaeth yw y caiff anghenion cyfathrebu pobl sy'n F/fyddar neu'n byw â cholled clyw eu diwallu ar gyfer pob apwyntiad ar draws yr holl wasanaethau iechyd. Bydd y fframwaith hwn yn gweithio ochr yn ochr â'r rhain ar sail gwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.

3.2 Diben hyn yw adeiladu ar y llwyddiant presennol; dod ag eglurder a chyfeiriad i GIG Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn gofal partneriaethol yn y lleoliad cymunedol; a gwella canlyniadau i bobl wrth gynllunio a darparu systemau iechyd a gofal cymdeithasol cydgynhyrchiol. I wneud hyn, mae angen cynnwys pawb, yn enwedig dinasyddion hwythau: un cyfle allweddol yw hunan-reoli.

3.3 Mae grwpiau rhanddeiliaid wedi ein cynghori ar y diffiniadau ar gyfer y gwahanol gymunedau. Mae'r derminoleg sydd orau ganddynt yn defnyddio'r term 'y rheiny sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw' gan fod gwahaniaethau sylweddol rhwng pobl ag effaith arnynt o'u genedigaeth neu o fore oes a phobl sy'n colli eu clyw fel oedolion a/neu fel rhan o'r broses heneiddio arferol. Bydd y gwahaniaethau hyn yn cael eu deall ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a sefydliadau eraill.

3.4 **Llesiant:** Gall pobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw golli eu hannibyniaeth a theimlo eu bod heb gysylltiad â'r byd o'u cwrpas. Gall yr arwahanrwydd cymdeithasol hwn fod yn wanychol tu hwnt. Mae canlyniadau hefyd i GIG Cymru ac awdurdodau lleol gan y bydd mwy o angen am gymorth parhaus. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi ac effaith ar lesiant ac annibyniaeth er budd pennaf pawb, y byrddau iechyd a'r adrannau gofal cymdeithasol ond, yn bwysicaf oll, yr unigolyn.

3.5 Mae llawer o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn dangos gwybodaeth wrth weithio gyda'r grŵp cleientiaid hwn, gan addasu eu prosesau i ddarparu ymatebion unigol i'w hanghenion. Maent hefyd yn cydnabod y gydberthynas gymhleth rhwng colled clyw a dementia a'r canlyniadau cymdeithasol h.y. arwahanrwydd cymdeithasol a gorbryder ac iselder, gan gynnwys effeithiau tinitws a'r bendro ar iechyd meddyliol a seicolegol pobl. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae canllawiau, rhaglenni hyfforddiant a dulliau wedi cael eu datblygu i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, y dylid eu hystyried ac, os yw'n briodol, eu cymhwyso'n genedlaethol yn ddi-oed.

3.6 Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n arwain wrth ysgogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ar gyflogaeth pobl anabl a'r strategaeth ar gyfer pobl anabl, y mae llawer ohonynt yn F/fyddar/byw â cholled clyw. Mae cyflogaeth, gweithgareddau arferol bob dydd a chysylltu â theulu, ffrindiau a'r gymdeithas yn gyffredinol yn hanfodol i atal arwahanrwydd cymdeithasol a gwella lles meddyliol. Bydd Llywodraeth Cymru'n

parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i dynnu sylw at unrhyw rwystrau i gyflogaeth yng Nghymru mae pobl sy'n F/fyddar neu sydd â cholled clyw yn eu hwynebu, ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

3.7 Yng Nghymru rydym yn ffodus bod gennym wasanaethau ardderchog a ddarperir gan sefydliadau yn y trydydd sector. Mae gan wirfoddolwyr rôl bwysig wrth helpu pobl i reoli eu colled clyw trwy ddarparu cyngor a chymorth ymarferol. Mae ganddynt rôl hanfodol wrth gyfathrebu a llywio ffordd trwy systemau.

3.8 Mae angen inni fanteisio ar yr arbenigedd hwn a hybu gweithio mewn partneriaeth rhwng y trydydd sector, GIG Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn cau unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a dod o hyd i ffyrdd o safoni a symleiddio'r hyn a wnawn er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a rannwn mewn modd darbodus. Gwneir hyn trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grwpiau Cydweithredol ar gyfer Gofal. Mae angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wella canlyniadau i bobl yn eu rhanbarth. Mae angen iddynt hefyd sicrhau y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i alluogi hyn.

4. Y fframwaith

4.1 **Rhan 1: Y Weledigaeth:** Rydym eisiau gweithredu cyson a theg i ddilyn cwrs bywyd o fabanod newydd-anedig a phlant, trwodd i oedolion iau, oedolion a phobl hŷn er mwyn sicrhau bod yna wasanaethau priodol ar bob cam. Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gael i ddiwallu anghenion pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw a'u galluogi i fyw bywydau annibynnol, ynghyd â chymorth i alluogi llesiant. Bydd pobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth, a byddant yn gallu ceisio'r cymorth mae ei angen arnynt yn nes at eu cartrefi pan fo hyn yn briodol.

4.2 Ym mha bynnag ran o Gymru mae unigolyn yn byw, bydd yn gallu atgyfeirio ei hun at wasanaethau awdioleg a bydd yn mynd i'w apwyntiadau mewn unrhyw adran o GIG Cymru a/neu awdurdod lleol, a bydd ei anghenion o ran cyfathrebu'n cael eu diwallu. Bydd cynllunwyr gwasanaethau'n deall pwysigrwydd llunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gofal a chymorth i ddiwallu anghenion pobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw â cholled clyw.

4.3. Mae dyletswydd ar ein byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gan blant y blynyddoedd cynnar ddarpariaeth addas i sicrhau cyfeirio ac atgyfeirio amserol at wasanaethau cymorth arbenigol h.y. therapyddion iaith a lleferydd, iaith arwyddion, athrawon y byddar a gwasanaethau cwnsela. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallant gyfathrebu'n effeithiol a chyflawni eu potensial llawn yn y gymdeithas.

4.4 Bydd trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn digwydd yn ddi-dor ac yn amserol er mwyn sicrhau nad yw'r person ifanc o dan anfantais. Ni ddylai'r gallu i fwynhau cyflogaeth, hamdden a gweithgareddau arferol bob dydd effeithio ar bobl fel oedolion iau neu hŷn. Bydd mynediad rhwydd i wasanaethau cymorth ac asesiadau clyw, cymhorthion clyw, cynnal a chadw ac atgyweirio ar gael.

4.5 Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da, gofal da a'r gallu i gael gwybodaeth a chymorth â chyfathrebu, yn hygyrch i bawb mae arno angen y gwasanaethau hyn er mwyn inni ddiwallu eu hanghenion mewn modd diogel a gydag urddas. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i lawer o wasanaethau awdioleg gael eu darparu yn y gymuned leol.

4.6 Dylai asesiad amserol am gymorth fod ar gael lle mae aelodau o staff cartref gofal a staff gofal cartref preswyl neu aelodau o'r teulu wedi canfod angen. Bydd GIG Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn cydweithio i gynllunio sut y dylid darparu cymorth a sut i greu'r trefniadau monitro priodol i adolygu'n rheolaidd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

4.7 Ni ddylai pobl mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl aros yn hirach am waith cynnal a chadw ac atgyweirio cymhorthion clyw na neb arall.

4.8. Rydym yn bwriadu mireinio beth y gallwn, yn realistig, ei fesur yn awr ac yn y dyfodol yn ystod oes y Fframwaith trwy'r Bwrdd Prosiect trwy barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol ac yn genedlaethol.

4.9. **Rhan 2: Y fframwaith:** Mae gweithwyr proffesiynol ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol eisoes wedi nodi a chytuno ar weithredu trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn creu llwybrau integredig. Mae'r gweithredu yn y fframwaith hwn yn canolbwyntio ar hyfforddiant, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth/ffocws ar gwsmeriaid sy'n F/fyddar/â cholled clyw, gan sicrhau bod y llwybrau'n haws i bobl eu dilyn ac i'n helpu i wireddu'r weledigaeth gyffredinol.

4.10. Ceir yn Atodiad 1 set gychwynnol fanwl o gamau gweithredu y bydd y Bwrdd Prosiect yn eu blaenoriaethu a'u diweddarau. Nodir camau gweithredu allweddol y mae angen i GIG Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill eu cymryd dros amser er mwyn helpu i rymuso pobl i reoli eu gofal eu hunain yn well ac i gael cymorth yn lleol. Nid yw'r Fframwaith yn rhagnodol, yn fwriadol felly, er mwyn caniatáu i ardaloedd lleol ddatblygu gwasanaethau a fydd yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu clystyrau a chynlluniau Grwpiau Cydweithredol ar gyfer Gofal a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

4.11 Rhaid i'r holl gamau gweithredu a gyflawnir ganolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau a phrofiad cleifion a lleihau amrywiad. Dylai cynlluniau gofal unigolion adlewyrchu'r newidiadau a'r boddhad gyda'u dewis o ymyrraeth.

4.12 Mae'n bwysig grymuso pobl i hunan-reoli pan fo'n briodol. Gall sefydliadau'r trydydd sector ddarparu cymorth ychwanegol trwy eu grwpiau defnyddwyr gwasanaethau os oes angen. Mae sefydliadau yn y trydydd sector hefyd yn darparu gwybodaeth a chynghor pwysig i bobl sy'n F/fyddar neu'n byw â cholled clyw. Mae cysylltiadau cryf rhwng y sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru a'r byrddau ieuchyd ac awdurdodau lleol a rhaid inni chwilio bob amser am gyfleoedd i gyflawni'r camau gweithredu cytunedig gan gyd-adlewyrchu llais yr unigolyn.

4.13 Rhan 3: Y Trefniadau Arwain a Monitro: Bydd gweithredu'r Fframwaith hwn yn rhan o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd trwy asesuadau o anghenion y boblogaeth. Bydd Prif Weithredwyr byrddau iechyd, trwodd i Gyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd a Chyfarwyddwyr Meddygol, ynghyd â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, trwodd i Fyrddau Partneriaethau Rhanbarthol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a thimau synhwyrdd yn goruchwyllo'r gwaith hwn fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad arferol sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu eu datblygu, eu gweithredu a'u cyflawni erbyn 2020.

4.14 Bydd Bwrdd Prosiect Cenedlaethol amlddisgyblaethol sy'n goruchwyllo yn llywio'r grwpiau sy'n bodoli eisoes i gyflawni'r canlyniadau cytunedig, gan osgoi dyblygu a gwneud y defnydd gorau o'r strwythurau sy'n bodoli eisoes. Bydd hefyd yn sicrhau y caiff arferion da eu nodi a'u mabwysiadu'n genedlaethol.

4.15 Y Bwrdd Prosiect: Rôl y Bwrdd Prosiect hwn yw cyfrannu at y fframwaith hwn, a chynghori Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac awdurdodau lleol ar ei gyfeiriad a'r gwaith o'i ddatblygu, ei weithredu, ei fonitro, ei adolygu a'i werthuso. Ar wahân i'r bwrdd newydd hwn, y bwrdd eglur yw gweithio trwy grwpiau sy'n bodoli eisoes.

4.16 Yn lleol, bydd grwpiau gofal cydweithredol amlddisgyblaethol colled clyw presennol byrddau iechyd sy'n cynnwys aelodaeth o blith yr holl randdeiliaid allweddol (gan gynnwys Cyfarwyddwyr, awdiolegwyr, meddygon ymgynghorol clustiau, trwyn a gwddf, meddygon cyntedd y glust, gweithwyr proffesiynol meddygol awdioleg, Penaethiaid Gofal Sylfaenol, cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Teuluoedd yn Gyntaf, Addysg a'r trydydd sector) gan weithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol¹, yn cytuno ar y blaenoriaethau i'w hardaloedd lleol er mwyn cyflawni'r camau gweithredu yn y fframwaith. Byddant hefyd yn gyfrifol am nodi gofynion o ran ymchwil ac am fwrw ymlaen â blaenoriaethau trwy eu cyrff statudol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan grwpiau cenedlaethol penodol sydd eisoes wedi'u sefydlu a'i gefnogi gan grwpiau trawsbynciol sefydledig. (Atodiad 3).

4.17 Bydd adroddiad ar berfformiad byrddau iechyd yn erbyn y fframwaith a pherfformiad awdurdodau lleol yn cael ei roi i'r Bwrdd Prosiect bob blwyddyn. Bydd y

¹ Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gael eu sefydlu'n unol â Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Rhaid i aelodaeth bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys: O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol; o leiaf un aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol; cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pob awdurdod lleol ar y bwrdd partneriaeth; cynrychiolydd i'r Bwrdd Iechyd Lleol; dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector; o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal; un person i gynrychioli pobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth; ac un person i gynrychioli gofawyr.

broses adrodd ar ganlyniadau i fonitro ein cynnydd yn cael ei hadrodd i'r bwrdd prosiect bob blwyddyn ar y meysydd canlyniadau canlynol:

- **Adsefydlu:** Galluogi pobl i gael gafael ar sgiliau, cyngor a thechnoleg fydd yn eu helpu i gyfathrebu, boed yn Gymraeg neu Saesneg, trwy ddarllen gwefusau neu iaith Arwyddion Prydain neu ddulliau eraill.
- **Gofal:** Yn unol ag asesiadau poblogaeth, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gydweithio i sicrhau y darperir y gofal a chymorth priodol i bobl ag anghenion o ran gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ofyniad o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r cod ymarfer sy'n cefnogi'r gofyniad hwn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i golled synhwyrdd fod yn un o themâu craidd adroddiadau asesiadau poblogaeth. Bydd unrhyw waith cynllunio wrth ymateb i ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth yn ffordd bwysig o gynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ac integredig.
- **Atal ac ymyrraeth gynnar:** Atal colled clyw y gellir ei osgoi a gwella cymorth parhaus gan gyrff iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector e.e. sgrinio babanod newydd-anedig, darparu cymhorthion, gwasanaethau cynnal a chadw, cyfarpar cynorthwyol a gwybodaeth, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn – darparu hyfforddiant mwy cyson a gwella cymhareb staff i ddarparu gwasanaethau.
- **Canfod yn gynnar:** Canfod yn amserol broblemau a all fod yn gysylltiedig â B/byddardod/colli clyw e.e. atgyfeirio at wasanaethau seicoleg ar gyfer problemau gwybyddol; iselder; dementia; anghenion addysgol arbennig – mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau hyn gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau oddi wrth ymarferwyr cyffredinol i adrannau awdioleg a chlustiau, trwyn a gwddf mewn ysbytai.
- **Diagnosis a Mynediad:** Darparu gwasanaethau integredig, hygyrch o ansawdd da ym meysydd gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd a gwasanaethau cymdeithasol; sicrhau y caiff gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf eu darparu'n genedlaethol e.e. mynediad uniongyrchol – mwy o gleifion yn cael eu rhyddhau i awdioleg mewn gofal sylfaenol yn hytrach na chael eu rheoli yn yr adrannau gofal eilaidd clustiau, trwyn a gwddf. Tri chanlyniad blaenoriaethol allweddol fydd ymgysylltu'r holl randdeiliaid ag amcanion ar y cyd, sicrhau bod mwy o blant yn cael sgrinio eu clyw wrth fynd i'r ysgol a bod mwy o bobl mewn cartrefi gofal a gofal preswyl yn cael profion clyw.
- **Gwybodaeth:** Grymuso a rhoi gwybodaeth i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw (cydbwysedd a thinitws) i hunan-reoli ac i wella eu profiad cyffredinol e.e. cyfleu negeseuon allweddol a gofal iechyd darbodus – mwy o gleifion â cholled clyw yn ymwybodol o'r man mynediad i wasanaethau awdioleg, gofal cymdeithasol a chymorth gan y trydydd sector a chymorth addysgol.
- **Profiad y Claf a Chanlyniadau i Gleifion:** Gwella TG er mwyn datblygu dulliau casglu data a mesurau monitro mesuriadau profiad a gofnodir gan y claf (PREM) a mesuriadau canlyniadau a gofnodir gan y claf (PROM) e.e. fel y nodir yn y cynllun gofal sylfaenol a'r cynllun gofal wedi'i gynllunio clustiau, trwyn a gwddf – datblygu casglu data mwy cadarn er mwyn adrodd ar nifer y cleifion sydd newydd eu cofrestru mewn gofal cymdeithasol bob blwyddyn ac er mwyn darparu gwybodaeth i fesuriadau'r Cynllun clustiau, trwyn a gwddf sy'n cael eu datblygu fel rhan o Gynllun Clustiau, Trwyn a Gwddf y Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio.

4.18 Caiff yr adborth ei ddefnyddio i lywio a chytuno ar gamau gweithredu yn y dyfodol i'r grwpiau iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u sefydlu eisoes. Bydd y Bwrdd Prosiect yn cytuno ar gynllun gwaith, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ac yn adrodd ar y gweithgarwch i'r holl randdeiliaid yn genedlaethol ar ôl pob cyfarfod ac i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn.

4.19 Bydd aelodaeth y Bwrdd Prosiect yn gytbwys er mwyn adlewyrchu cynrychiolaeth o broffesiynau a sefydliadau perthnasol o bob rhan o Gymru. Disgwylir i'r aelodau ledaenu gwybodaeth yn eu sefydliadau hwythau ac arwain y gwaith o adrodd ar y camau a gymerir yn genedlaethol i'r Cadeirydd.

4.20 Bydd y trefniadau monitro yn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn unol â'r gofyniad i ddilyn cylch bywyd o fabanod newydd-anedig a phlant trwodd i oedolion iau, oedolion a phobl hŷn er mwyn sicrhau'r gwasanaethau iawn ar draws y cwrs bywyd.

4.21 Bydd y Bwrdd Prosiect yn sicrhau y bydd ymgysylltu da â rhanddeiliaid yn parhau trwy oes y ddogfen Fframwaith er mwyn cyflawni'r camau gweithredu cytunedig.

Atodiadau

Atodiad 1

Set Gychwynnol o Gamau Gweithredu

Camau gweithredu yr ymrwymwyd iddynt gan y fframwaith: Cytuno ar y blaenoriaethau, cynllunio capasiti a galw er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau sy'n bodloni dewis yr unigolyn a chreu mecanweithiau cadarn i fonitro, adolygu a gwerthuso.

1. Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Cam gweithredu 1: Darparu cyngor i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw a mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfleu negeseuon allweddol, ynghylch atal yn benodol, i ddinasyddion yn genedlaethol.

Cam gweithredu 2: Gweithio gydag adrannau iechyd a gofal cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw ymysg y cyhoedd, grwpiau sydd mewn perygl a phlant; er mwyn pwysleisio'r angen i ganfod colled clyw a chysylltu ag ymgyrchoedd eraill ym maes ymwybyddiaeth iechyd fel cwmpo ac iselder.

Cam gweithredu 3: Gweithio gyda GIG Cymru (gan gynnwys nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd), awdurdodau lleol, gan gynnwys addysg, Cyngorau Iechyd Cymuned a'r trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth mae ei angen i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw a datblygu gwefan/tudalen we a fydd yn darparu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, a chyfathrebu'n barhaus ac yn gyson.

2. Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Cam gweithredu 4: Ad-drefnu'r grwpiau amlddisgyblaethol colled clyw presennol yn Grwpiau Cydweithredol ar gyfer Gofal Clyw yn ardal pob bwrdd iechyd a chysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn gwella dealltwriaeth darparwyr yn y sector cyhoeddus fel y caiff pobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw fynediad teg at wasanaethau.

Cam gweithredu 5: Canfod i ba raddau mae hyfforddiant cenedlaethol ar ymwybyddiaeth o F/fyddardod/colled clyw, gan gynnwys nam ar ddau synnwyr a chysylltiadau rhwng colled clyw ac iechyd meddwl, yn cael eu cynnwys mewn modiwlau hyfforddiant craidd, i'r holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a chynnwys pwyslais penodol ar adrannau addysg, cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a safleoedd gofal preswyl eraill; cysylltiad gyda Chyngor Gofal Cymru.

Cam gweithredu 6: Datblygu meini prawf a llwybrau atgyfeirio uniongyrchol priodol i ac o adrannau awdioleg at adrannau ac asiantaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol (ar gyfer asesiadau a chyfarpar cynorthwyl), adrannau clustiau, trwyn a gwddf, meddygaeth cyntedd y glust, seicoleg glinigol a radioleg (ar gyfer delweddu cyseinnedd magnetig (MRI)). Gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu atgyfeiriadau electronig a

chofnodion cleifion electronig, gan gynnwys addysg a hyfforddiant i gynorthwyo â'r gwaith datblygu a chyflwyno.

Cam gweithredu 7: Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i ganfod a chynorthwyo pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a safleoedd gofal preswyl eraill fel y caiff eu hanghenion clyw eu hadnabod a'u diwallu mewn modd cyson trwy ddarpariaeth ddigonol o ofal mewnol ac atgyfeiriadau. Gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Awdioleg i adolygu'r ddarpariaeth allanol o ofal adsefydlu, gan sicrhau y caiff profion clyw rheolaidd eu cynnwys yng Nghynlluniau Gofal Personol Unigol pobl. Grymuso pobl i wella sgiliau hunan-reoli a gweithio gydag AGGCC i fonitro'r trefniadau.

Cam gweithredu 8: Datblygu, gweithredu a hyrwyddo system o 'fflagiau' sy'n tynnu sylw'r holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a'u staff at ofynion pobl o ran cyfathrebu wrth iddynt gael gwasanaethau a sut y dylent ystyried ar bwy allai fod angen cymorth ychwanegol. Gwneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl i gyfleu eu hanghenion o ran iechyd a gofal cymdeithasol a deall beth fydd yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â hwy.

Cam gweithredu 9: Datblygu PROMS a PREMS Cymru gyfan a gwneud y defnydd ohonynt yn systematig mewn gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, gan sicrhau eu bod wedi'u halinio â'r rhai a nodir yn y Cynllun Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf. Iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddatblygu dull integredig o rannu mesuriadau profiad ledled Cymru.

Cam gweithredu 10: Trwy waith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grwpiau Cydweithredol ar gyfer Gofal, rhoddir gwybod i fwy o bobl â cholled clyw am y man mynediad i wasanaethau awdioleg, gofal cymdeithasol a chymorth gan y trydydd sector.

Cam gweithredu 11: Gan weithio gyda'r trydydd sector, canfod sut i rymuso pobl i wella eu sgiliau hunan-reoli gyda gwell gwybodaeth, gwell mynediad i wasanaethau a thechnoleg gynorthwyol pan fo angen a chymorth lleol i gydategu gwasanaethau awdioleg.

Cam gweithredu 12: Datblygu a defnyddio gwaith cyfeirio ymarferol² i rieni a gofalwyr gael mynediad i wasanaethau cymorth ac i ddeall y cymunedau B/byddar/byw â cholled clyw er mwyn gwella cyfathrebu ymhellach. Dylai cynlluniau rheoli unigol y byrddau iechyd a chynlluniau gofal y gwasanaethau cymdeithasol arwain ar reoli integredig i blant ac adlewyrchu'r gwaith monitro cymorth addysgol mae ei angen.

3. Byrddau Iechyd:

Cam gweithredu 13: Sefydlu cyfathrebu ffurfiol trwy'r grwpiau amlddisgyblaethol gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector i helpu Penaethiaid y Grŵp Gwasanaethau Awdioleg a'r Grŵp Clustiau, Trwyn a Gwddf/Cyntedd y Glust i gyd-ddylunio, cynllunio, monitro ac adolygu gwasanaethau a llwybrau cleifion ar draws

² Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 17 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd; adolygu a datblygu cynlluniau gweithlu er mwyn sicrhau ffyrdd newydd o weithio.

Cam gweithredu 14: Cwmpasu, datblygu a gweithredu cynllun i estyn gwasanaethau awdioleg i leoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys mynediad uniongyrchol i gleifion i'r Llwybr Clyw Oedolion heb atgyfeiriad gan ymarferydd cyffredinol neu weithiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol arall. Bydd hyn yn cynnwys adolygu a datblygu cynlluniau gweithlu er mwyn sicrhau ffyrdd newydd o weithio h.y. er mwyn datblygu rolau Uwch-ymarferydd Awdioleg Gofal Sylfaenol ym mhob bwrdd iechyd gan weithio mewn ardaloedd clystyrau; i sicrhau cymorth y trydydd sector a chynghorau iechyd cymuned i ddarparu mwy o wasanaethau yn y lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, yn nes at gartrefi pobl.

Cam gweithredu 15: Sefydlu capasiti mewn gwasanaethau awdioleg trwy gynllunio'r gweithlu i gynnwys rôl yr Uwch-ymarferydd Awdioleg mewn gofal sylfaenol, er mwyn trefnu ar gyfer trosglwyddo gweithgarwch o wasanaethau Clustiau, Trwyn a Gwddf yn unol â'r Cynllun Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf a datblygu arferion da er mwyn darparu gofal cydgysylltiedig gan gydgyhyrchu gyda'r holl awdiolegwyr, meddygon ymgynghorol Clustiau, Trwyn a Gwddf, Meddygon Cyntedd y Glust, radiolegwyr a Chynghorau Iechyd Cymuned i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Cam gweithredu 16: Adeiladu ar y Llwybr Gofal Cleifion cenedlaethol Ffocws ar Dinitws (ymyrraeth cam cyntaf ar gyfer tinitws gan awdiolegydd gofal sylfaenol – gwybodaeth a chwnsela sylfaenol), gweithio gyda chleifion a'r trydydd sector i ddatblygu Llwybr Tinitws cenedlaethol a datblygu llwybrau cenedlaethol eraill e.e. llwybr rheoli cwyrr, cydbwysedd, oedolion ag anabledd dysgu, rhaglen Mewnblaniadau Cochlear a Chymhorthion Clyw Drwy Asgwrn a Llwybr Colled Clyw Oedolion; i gynnwys y rôl Uwch-ymarferydd Awdioleg mewn gofal sylfaenol a hunangyfeirio uniongyrchol a llwybr clyw i blant fel blaenoriaeth allweddol.

Cam gweithredu 17: Diffinio a gweithredu sicrwydd ansawdd sy'n cynnwys archwiliad yn erbyn y Safonau Ansawdd ar gyfer meysydd awdioleg nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd h.y. gwasanaethau cydbwysedd, tinitws a dyfeisiau mewnblanadwy. Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid i gyd-ddylunio a gweithredu archwiliad o nifer y bobl mewn grwpiau risg uchel sy'n manteisio ar brofion clyw.

Cam gweithredu 18: Datblygu archwiliad cenedlaethol o'r ffordd mae plant â nam ar eu clyw yn cael eu hadnabod ar ôl sgrinio clyw babanod newydd-anedig, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu eu llwybrau gofal clyw, gan weithio gyda'r arweinydd awdioleg ar gyfer sgrinio clyw plant, athrawon, nyrsys ysgol a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol; adolygu hyfforddiant, cyfleusterau profi, cyfarpar a monitro yn unol â'r Safonau Ansawdd cenedlaethol. I gynnwys datblygu profion clyw cenedlaethol mewn ysgolion, monitro nifer y plant sy'n manteisio ar brofion, canlyniadau a safonau hyfforddiant i'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau a datblygu rhaglen sicrhau ansawdd allanol genedlaethol a chynhyrchu data gwerthuso.

Cam gweithredu 19: Cwmpasu, datblygu a gweithredu cynllun i ddarparu llwybr y cytunir arno'n genedlaethol ar gyfer darparu batris a chynnal a chadw cymhorthion clyw yn barhaus, gan gynnwys hunan-reoli, rheoli batris a chymorth gwirfoddol gan gymheiriaid. Gweithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu a darparu cynlluniau parhaus cymorth gan gymheiriaid i bobl sydd â chymhorthion clyw, yn unol â chanllawiau

Llywodraeth Cymru: *'Volunteer Schemes to Support Adults who use hearing aids 2011'* a diffinio'r defnydd estynedig o wirfoddolwyr.

Cam gweithredu 20: Gwreiddio ystyriaeth o statws clyw fel rhan o lwybrau cleifion mewnol ar gyfer pobl â dementia, ac fel rhan o lwybrau gofal cof cleifion allanol ar gyfer diagnosis o ddementia. Datblygu gwasanaethau clyw sy'n ystyriol o bobl â dementia, gan gynnwys system o rybuddion ar gyfer pobl sy'n byw â dementia, asesiadau ac adsefydlu arbenigol, a chymorth ac adolygu parhaus.

4. Gwasanaethau Cymdeithasol:

Cam gweithredu 21: Datblygu llwybr gofal cymdeithasol yn unol â safonau cenedlaethol ac arferion gorau³ i bobl gael cymorth parhaus sy'n ymatebol i'w hanghenion ac yn benodol i bobl hŷn sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw ochr yn ochr ag anghenion eraill o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

Cam gweithredu 22: Datblygu ymhellach a gweithredu asesiad o ofal a chymorth sy'n ystyried anghenion pobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i ddeall sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn ardal pob awdurdod lleol a chyfeirio pobl at y gwasanaethau priodol o ran cymorth gofal cymdeithasol a llesiant sydd ar gael.

Cam gweithredu 23: Canfod i ba raddau mae rhaglenni hyfforddiant ac addysg cenedlaethol i wasanaethau cymdeithasol yn galluogi asesiadau a rhaglenni cymorth i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw a chynorthwyo pobl gyda sgiliau cyfathrebu a byw pob dydd.

Cam gweithredu 24: Datblygu a gweithredu canllawiau arfer da cenedlaethol ar F/fyddardod/colled clyw i gynorthwyo â rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chodau ymarfer ar waith; yn benodol ynghylch y mathau o ofal a chymorth y dylid eu darparu i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw.

5. Llywodraeth Cymru:

Cam gweithredu 25: Mynd ati i sicrhau bod byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrâu a Chyfathrebu â Hwyl. Fel rhan o'r gwaith hwn cymerir camau i sicrhau, i'r graddau y bo'n bosibl, fod rhaglenni cyflogaeth yn gwbl hygyrch i bobl sy'n F/fyddar neu â cholled clyw.

Cam gweithredu 26: Sefydlu Bwrdd Prosiect Cymru gyfan i oruchwylio'r fframwaith gweithredu hwn, gan gynghori byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill ar flaenoriaethau. Bydd y Bwrdd Prosiect yn sicrhau y gwneir cysylltiadau da gyda'r Cynllun Gofal Sylfaenol, y Cynllun Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cam gweithredu 27: Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, er mwyn ystyried datblygu system ar-lein genedlaethol i gofrestru pobl sy'n F/fyddar/byw â cholled

³ Best Practice Standards: Social Services for Deaf and Hard of Hearing People (Association of Directors for Social Services ; Gorffennaf 1999)

clwyd ac edrych ar ffyrdd eraill i wella cofrestri nam ar y synhwyrddau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 18.

Cam gweithredu 28: Gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu a diwygio ac adrodd ar fesuriadau canlyniadau ar gyfer pob claf (newydd a dilynol) ar sail angen clinigol a pherygl colled clyw anwrthdroadwy. Bydd hyn yn cael ei gynorthwyo gan adolygiad o gwestiynau Arolwg blynyddol Iechyd Cymru. Datblygu mecanweithiau i ganfod mynychder colled clyw, angen nas diwellir, y defnydd a wneir o ymyrraeth, ac amcanestyniadau demograffig er mwyn helpu i lywio polisi a chynllunio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau yn y cymunedau gwahanol.

Cam gweithredu 29: Gweithio gyda rhanddeiliaid i wella cyfathrebu ac ymgysylltu, gan sicrhau cysondeb mewn negeseuon allweddol i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ac i rannu arferion gorau. Cyflwyno'r ddogfen gwybodaeth am gleifion 'Dyma fi', a grëwyd gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol, yn genedlaethol ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cynghorau Iechyd Cymuned:

Cam gweithredu 30: Gan weithio gyda'r trydydd sector, mynd ati i gael barn y cyhoedd ar berfformiad a dyluniad gwasanaethau trwy grwpiau cleifion ac adborth i'r Bwrdd Prosiect, grwpiau amlddisgyblaethol byrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gwasanaethau cymdeithasol, gan gysylltu'n agos â'r clystyrau gofal sylfaenol a grwpiau cyflwr benodol h.y. grwpiau dementia.

7. Y Trydydd Sector:

Cam gweithredu 31: Ymgysylltu â byrddau iechyd i weithredu'r argymhellion o ran Safonau Ansawdd ar gyfer awdioleg i ddarparu gwasanaethau i gefnogi gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau mewn ysbytai lle mae tystiolaeth yn dangos bod hyn yn sicrhau'r cost-ffeithiolrwydd mwyaf posibl. Ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyd-ddylunio ac yn diwallu angen pobl am wasanaethau mwy lleol.

Cam gweithredu 32: Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gydgyssylltu holl waith y trydydd sector ledled Cymru er mwyn cyfleu negeseuon allweddol; codi ymwybyddiaeth a sicrhau cyhoeddusrwydd i'r ystod lawn o grwpiau cymorth sydd ar gael i leihau unigedd ac arwahanrwydd i bobl sy'n F/fyddar/byw â cholled clyw. Darparu cyfeirio amserol at grwpiau cymorth gan gymheiriaid ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyfeillio er mwyn helpu i gynnal annibyniaeth pobl.


Cam gweithredu 33: Bydd y trydydd sector yn gwrando ar bobl ac yn gweithio gyda chymunedau i ddyfeisio a dylunio gwasanaethau i ddiwallu angen nas diwellir neu i wella effeithiolrwydd. Byddant hefyd yn cynrychioli ac yn cydgysylltu barn ac adborth pobl am wasanaethau. Bydd y trydydd sector yn gweithio gyda phobl i ddatblygu ffyrdd effeithiol o reoli eu colled clyw, gan greu capasiti mewn cymunedau lleol ar gyfer gofal, cymorth a grymuso. Bydd y trydydd sector yn cynrychioli llais yr unigolyn ac yn cyfrannu arbenigedd proffesiynol wrth weithio i sicrhau y caiff y cynlluniau hyn eu cyflawni.


Atodiad 2

Cyfeiriadau

- Gofal Iechyd Darbodus - www.prudenthealthcare.org.uk
 - Cynllun Gofal Sylfaenol – www.gofal.org.uk
 - Clystyrau Gofal Sylfaenol - www.gpun.cymru.nhs.uk/clystyrau-cymru
 - Cynllun Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf – www.gofal.org.uk
 - Safonau hygrychedd -
<http://www.cydraddoldebhawliaudynol.wales.nhs.uk/safonau-cymru-gyfan-ar-gyfer-dulliau-cyf>
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf
 - Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), yn nodi'r cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
 - Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol er gwybodaeth yn unig ac er mwyn hwyluso'r gwaith o ystyried cynnwys y Bil drafft. Ymgynghorir ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft yn ddiweddarach. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.
 - The Science Behind Prudent Healthcare: The NHS Wales Healthcare Science Workforce of the Future: a Strategy. (insert publishing date)
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>
- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015:
- <http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s45551/CLA594%20-%20Rheoliadau%20Trefniadau%20Partneriaeth%20Cymru%202015.pdf>
- Best Practice Standards: Social Services for deaf and Hard of Hearing People (ADSS; Gorffennaf 1999)

Atodiad 3 Perthnasoedd y Fframwaith





Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith Integredig Gofal Chymorth i bobl sy'n F/fyddar neu'n byw â cholled clyw (organogram)

- Project Board for Deaf and Hearing Wales: yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru a'i gynnal ddwywaith y flwyddyn.
- Grŵp penaethiaid gwasanaethau: yn cael ei gadeirio gan Awdiolegydd a'i gynnal deirgwaith y flwyddyn.
- Grwpiau Cydweithredol ar gyfer Gofal Clustiau, Trwyn a Gwddf/Awdioleg Byrddau Iechyd: grwpiau amlddisgyblaethol sy'n cael eu cadeirio gan uwch-gynrychiolydd o'r byrddau iechyd a'u cynnal deirgwaith y flwyddyn.
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: yn cael ei gadeirio gan uwch-gynrychiolydd o iechyd neu ofal cymdeithasol a'i gynnal bob chwarter.
- Grŵp Cyngori Sefydlog Arbenigol ar Awdioleg: yn cael ei gadeirio gan Awdiolegydd a'i gynnal bob chwarter – yn cynghori Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru.
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: yn cael ei chadeirio gan
Ei phrif bwrpas yw hyrwyddo llesiant, amddiffyniad, cefnogaeth a gofal oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghymru. Mae'r aelodau'n cynnwys cyfarwyddwyr statudol ac uwch reolwyr gwasanaethau cymdeithasol o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r aelodau cyswllt yn gyn-gyfarwyddwyr neu benaethiaid gwasanaeth.
- Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Clustiau, Trwyn a Gwddf/Awdioleg: yn cael ei gadeirio gan uwch gynrychiolydd iechyd a'i gynnal bob chwarter.
- Grŵp Gweithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu i Bobl sydd â Nam ar eu Synhwyrâu: yn cael ei gadeirio gan weithiwr proffesiynol iechyd a'i gynnal bob chwarter.

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Caerdydd ▪ Cardiff
Caerdydd ▪ Cardiff
CF10 3NQ

Ei brif bwrpas yw sicrhau y diwellir anghenion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws adrannau iechyd a gofal cymdeithasol ac adrannau eraill.

- **Alliance of Deaf Organisations Wales (ADOW):** Sefydliadau yn y sector gwirfoddol sy'n cynrychioli safbwyntiau a hawliau pobl fyddar o bob oed a graddau byddardod/colled clyw yng Nghymru. Yn cael ei gadeirio gan y Trydydd Sector a'i gynnal ddwywaith y flwyddyn.